

**Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gymuned Tonyrefail**

|                 |                          |
|-----------------|--------------------------|
| <b>Dyddiad</b>  | 21 Hydref 2024           |
| <b>Amser</b>    | 15:45                    |
| <b>Lleoliad</b> | Ysgol Gymuned Tonyrefail |

| <b>Presenoldeb</b> |                                  |  |
|--------------------|----------------------------------|--|
| <b>Enw</b>         | <b>Llythrennau cyntaf yr enw</b> | <b>Teitl</b>   |
| Tim Britton        | TB                               | Pennaeth Cyflawniad  |
| Ellen Williams     | EW                               | Rheolwr Adnoddau Dynol                                     |
| Claire Christy     | CC                               | Swyddog Derbyn Disgyblion                                  |
| Chantal Ferguson   | CF                               | Swyddog Cymorth a Chydymffurfio – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Kylie Lewis        | KL                               | Swyddog Cymorth Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif       |

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Estynnodd TB groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

**2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

Rhoddodd TB drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

**3. Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Tonyrefail i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| <b>Rhif</b> | <b>Cwestiwn/Sylw</b>   | <b>Ymateb</b>   |
|-------------|--|---|
| 1.          | Sut wnaethoch chi gyrraedd y niferoedd rydych chi wedi'u nodi? Bydd hyn yn gadael dim lleoedd gwag yn Ysgol Gymuned Tonyrefail a bydd yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yma. | <p>Mae lle i 440 o ddisgyblion yng nghyfnod cynradd Ysgol Gymuned Tonyrefail (meithrin hyd at flwyddyn chwech).</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan gyfnod cynradd Ysgol Gymuned Tonyrefail 353 o ddisgyblion ar y gofrestr, ynghyd â throsglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod 85 o leoedd gwag ar hyn o bryd. Mae gan Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg 86 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.</p> <p>Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd 30 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael eu creu drwy</p> |

|    |   |  |
|----|---|--|
|    |   | <p>drosi gofod gwag yn ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn cynyddu capasiti cyfnod cynradd Ysgol Gymuned Tonyrefail i 470 o leoedd disgyblion. Bydd hyn yn golygu y byddai 115 o leoedd gwag yng nghyfnod cynradd Ysgol Gymuned Tonyrefail, gan ddangos bod lle ar gyfer y disgyblion ychwanegol sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg tra hefyd yn gadael lle ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau pellach yn ystod y flwyddyn.</p>   |
| 2. | <p>Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau tai arfaethedig yn ardal Tonyrefail, mae rhai eisoes wedi dechrau cael eu hadeiladu. Mae hyn yn golygu y gallai 356 o ystafelloedd gwely ychwanegol gael eu hadeiladu dros y 18 i 24 mis nesaf. Byddai'n well cael ysgol newydd yn lle Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a pheidio â'i chau.</p>   | <p>Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai rhieni/gwarcheidwaid sy'n byw yn unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn dewis anfon eu plant i Ysgol Gymuned Tonyrefail. Dim ond 35% o blant y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Gymuned Tonyrefail ar hyn o bryd. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe bai angen mwy o leoedd yn Ysgol Gymuned Tonyrefail, bydden ni'n edrych ar hynny bryd hynny. Mae cynllunwyr yn ystyried gofodau ysgol pan ganiateir unrhyw gynlluniau datblygu tai posibl. Mae swyddogion Carfan Data Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn ystyried nifer yr anheddau newydd wrth weithio ar gapasiti ysgolion.</p> |
| 3. | <p>Byddai cost bysiau yn broblem i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n dod o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg i Ysgol Gymuned Tonyrefail, gan olygu y byddai'n rhaid iddyn nhw gerdded. Mae 65.0% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn mynychu clwb brechwast. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ddisgyblion ifainc godi'n gynnar iawn yn y bore i gyrraedd clwb brechwast yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> | <p>Rydyn ni'n eich annog chi i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein a mynegi eich barn. Byddwn ni'n cofnodi eich barn o'r cyfarfod heno a bydd y rhain yn rhan o'r adborth a gaiff eu hysgrifennu yn yr Adroddiad Ymgynghori.</p>  |
| 4. | <p>Beth yw capasiti Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg?</p>  | <p>Mae lle i 157 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (derbyn i flwyddyn chwech) yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ynghyd â 22 o ddisgyblion meithrin. Cyfanswm capasiti Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yw 179.</p>   |
| 5. | <p>Nid yw Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn bodloni safonau ysgolion y 21<sup>ain</sup> ganrif.</p>  | <p>Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £340,000 yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg dros y pedair blynedd diwethaf, fodd bynnag, nid yw'r adeilad yn hygyrch, ac nid yw'r safle ychwaith yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p>   |

|     |   |  |
|-----|---|--|
| 6.  | Rydw i'n cydymdeimlo ag Ysgol Gymuned Tonyrefail am orfod cymryd y disgyblion ychwanegol. Mae'r clwb brechwast yn llawn, a bydd yn hunllef logistaidd os oes angen unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol. Bydd yn costio mwy yn y tymor hir. Gyda'r datblygiadau tai ar y gweill, mae'n rhy gynnar i fynd â'r cynnig yma i'r Cabinet, mae 18 mis i 2 flynedd yn rhy gynnar.   | Wedi'i nodi.   |
| 7.  | Mae'r sefyllfa bresennol gyda maes parcio Ysgol Gymuned Tonyrefail yn broblem. Mae'r llwybr troed sy'n arwain at Ysgol Gymuned Tonyrefail o ansawdd gwael ac mae angen edrych arno, a hynny er mwyn sicrhau bod llwybr cerdded diogel o'r parc i fynedfa Ysgol Gymuned Tonyrefail. Prin yw'r cyfleoedd i barcio'n ddiogel, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau, nid oes capasiti ar y safle i wneud hynny'n ddiogel. Mae'n anrhefnus ar y gorau. Mae hyn yn bryder mawr. | Bydden ni'n edrych ar safle Ysgol Gymuned Tonyrefail yn ei gyfanrwydd i benderfynu a fyddai modd i ni gynyddu hygyrchedd ac edrych ar lif y traffig i osgoi tagfeydd. Bydden ni'n annog disgyblion i gerdded i'r ysgol yn hytrach na chynyddu'r lleoedd parcio ceir.         |
| 8.  | A bod yn realistig, mae traffig ar y safle yn Ysgol Gymuned Tonyrefail eisoes yn broblem ac mae angen edrych arno eto; mae angen cynyddu'r nifer o leoedd parcio ar safle Ysgol Gymuned Tonyrefail. Ychydig iawn o leoedd parcio sydd ar gael. Y gwir amdani yw bod rhieni/gwarcheidwaid yn defnyddio'r maes parcio at ddibenion gwahanol i'r diben gwreiddiol.   | Rydyn ni'n ymdrechu i wneud ein gorau glas i sicrhau bod diogelwch y safle a diogelu disgyblion yn faterion hollbwysig. Mae parcio yn broblem ar bob safle ysgol ledled Rhondda Cynon Taf. Does dim modd i ni ddarparu ar gyfer pob rhiant/gwarcheidwad sy'n defnyddio ceir. |
| 9.  | Mae'r ardal sy'n gwasanaethu Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn ardal ddifreintiedig iawn. Nid yw llawer o deuluoedd yn berchen ar geir, bydd disgyblion yn colli allan gan na fydd rhieni/gwarcheidwaid yn mynd â nhw i Ysgol Gymuned Tonyrefail.  | Byddai Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles y Cyngor yn gweithio gyda'r teuluoedd pe bai hyn yn wir. Rydyn ni'n annog pob teulu i fynegi eu barn drwy'r ymgynghoriad ar-lein.   |
| 10. | Dros y chwe blynedd diwethaf, bydd yr ardal honno o Donyrefail wedi colli dwy ysgol. Rydych chi'n   | Rydyn ni'n eich annog i fynegi eich barn yn ystod y broses ymgynghori yma. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori.   |

|     |   |   |
|-----|---|---|
|     | gofyn i ddisgyblion gerdded i Ysgol Gymuned Tonyrefail.   | Bydd Cyngorau Ysgol o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail hefyd yn dweud eu dweud yn ystod y broses yma, gan ei bod yn bwysig clywed barn y disgyblion eu hunain.   |
| 11. | A oes unrhyw geisiadau i dderbyn disgyblion i Ysgol Gymuned Tonyrefail wedi cael eu gwrthod?  | Mae rhestr aros ar gyfer disgyblion oed uwchradd gyda dim ond ychydig o enwau arni, ond ni wrthodwyd yr un lle ar gyfer disgyblion oed cynradd.   |
| 12. | Ydy Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cau oherwydd niferoedd ei disgyblion?  | Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn unig, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried megis cyflwr ac addasrwydd yr adeilad. Mae ysgolion mwy yn fwy hyfyw yn addysgol ac yn ariannol. Caiff hyn ei amlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori.   |
| 13. | Mae teulu wedi gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac wedi cael gwybod nad yw'r ysgol yn derbyn mwy o ddisgyblion.   | Dydy hyn ddim yn wir. Mae disgyblion yn dal i gael eu derbyn i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.   |
| 14. | Pryd oedd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn llawn?   | Mae'n annhebygol bod Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg erioed wedi bod yn llawn ond byddai'n rhaid edrych yn ôl ar gofnodion.   |
| 15. | A yw rhieni/gwarcheidwaid yn dewis ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg?  | Dengys y data tueddiadau fod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn gostwng. Ar hyn o bryd, mae 38 o ddisgyblion yn Ysgol Gymuned Tonyrefail o ddalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.   |
| 16. | Mae'r 38 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymuned Tonyrefail o ddalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg dros saith oed ac yn cael eu cludo mewn car fel arfer. Nid oes gan y mwyafrif o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg fynediad at gar.  | Wedi'i nodi.  |
| 17. | Caiff disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn cymysg yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw grwpiau blwyddyn cymysg yn Ysgol Gymuned Tonyrefail, fyddwn i ddim am i hyn newid. A oes lle yn y grwpiau blwyddyn yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, ac a fydd effaith | Mae gan Ysgol Gymuned Tonyrefail grwpiau blwyddyn cymysg ar hyn o bryd. Mae'n anarferol iawn y dyddiau yma i beidio â chael unrhyw grwpiau blwyddyn cymysg. Mae llawer o grwpiau blwyddyn cymysg ledled ysgolion yn Rhondda Cynon Taf; mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio eu medrau i sicrhau gwahaniaethu priodol yn eu gwersi. Yn anochel, bydd maint dosbarthiadau yn tyfu wrth i ysgolion dderbyn trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn trwy gydol y flwyddyn academiaidd. |

|     |   |   |
|-----|---|---|
|     | andwyol ar ddisgyblion Ysgol Gymuned Tonyrefail?    | Yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (01/2018), rhaid i'r Cyngor dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer yr ysgol honno, sy'n seiliedig ar gapasiti'r ysgol. |
| 18. | Beth yw'r nifer derbyn yn Ysgol Gymuned Tonyrefail? | Y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail yw 55.   |

#### 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrion ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45.